**Senedd Cymru**
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Ymchwiliad:** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
**Ymateb gan:** Comisiynydd Plant Cymru

**Welsh Parliament**
**Equality and Social Justice Committee**
**Inquiry:** Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
**Evidence from:** Children's Commissioner for Wales

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Date: 23 Mehefin 2025

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r ymchwiliad cyfredol fel rhan o'r craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Rwy'n croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth yn y cyswllt hwn.

Fel sefydliad hawliau dynol annibynnol, mae gan Gomisiynydd Plant Cymru rôl wahanol i un Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ond rydym yn rhannu diddordebau cyffredin ynghylch gwella gwaith cyrff cyhoeddus er lles plant yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'n werth nodi na fu craffu ôl-ddeddfwriaethol erioed ar y ddeddfwriaeth a sefydlodd fy swyddfa i. Oherwydd y cyfyngiadau ar ddatganoli ar yr adeg berthnasol, aeth y ddeddfwriaeth i greu swyddfa Comisiynydd Plant Cymru trwy Senedd y Deyrnas Unedig, a hynny drwy adran yn Neddf Safonau Gofal 2000. Cymru oedd y gyntaf o wledydd y Deyrnas Unedig i fod â chomisiynydd plant, ond ni chymerwyd unrhyw gamau dilynol o ran y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu gwaith y swyddfa.

Gan mai ni oedd gyntaf yn hyn o beth, mae cyfyngiadau ar y rhestr o gyrff cyhoeddus y mae ein pwerau yn eu cwmpasu, yn ogystal â chyfyngiadau ymarferol ar sut rydym ni'n cyflawni ein rôl. Ni chawn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â materion neilltuedig i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, er enghraifft, er ei bod yn aml yn amhosibl gwahanu'r rhain oddi wrth y pryderon a'r materion mae plant a theuluoedd yn dod â nhw i'r swyddfa. Nid yw bywydau plant a hawliau plant o dan CCUHP, sef sylfaen gwaith fy swyddfa, yn syrthio'n dwt i faterion datganoledig a neilltuedig.

Mae deddfwriaeth ddilynol yn y Deyrnas Unedig i greu swyddfeydd eu Comisiynwyr hwythau wedi cymryd agweddau llwyddiannus o'n deddfwriaeth ni, ond yn allweddol, maent wedi ehangu hynny, ac addasu'r rhannau sydd ddim yn gweithio cystal yn ymarferol. Un enghraifft o hynny yw un pŵer allweddol sydd gan y swyddfa yn Lloegr, o dan adran 110 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, sef y gallu i wneud cais am ddata a gwybodaeth gan gyrff cyhoeddus er mwyn cyflawni eu prif swyddogaeth. Mae hynny wedi

Tŷ Llewelyn | Llewelyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr
Heol yr Harbwr
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600
post@childcomwales.org.uk

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

galluogi Comisiynydd Plant Lloegr i gyhoeddi rhai adroddiadau a galwadau pwysig ynghylch polisi a deddfwriaeth; yn ei fformat presennol nid oes gan fy swyddfa innau'r pŵer hwn.

Mae'r Grwpiau Trawsbleidiol ar Blant yn ein Gofal, a Phlant a Theuluoedd, wedi dod ynghyd i gynhyrchu, ac yn ddiweddar wedi lansio, cynnig deddfwriaethol i amddiffyn a chryfhau hawliau babanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru. Rwy'n falch bod hyn yn cynnwys cynnig i edrych ar gynyddu pwerau fy swyddfa a throsglwyddo atebolrwydd o Lywodraeth Cymru i'r Senedd, ochr yn ochr â darpariaethau i sicrhau bod CCUHP yn cael ei ymgorffori'n llwyr ac yn uniongyrchol yng nghyfraith Cymru.

Y rheswm pam rwy'n codi'r pwynt uchod yw er mwyn dangos yn amlwg bod fy swyddfa yn sefydliad hawliau dynol annibynnol, yn unol ag Egwyddorion Paris (sy'n sefydlu'r safonau gofynnol ar gyfer annibyniaeth a gweithrediad effeithiol sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol). Nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i seilio ar gytuniadau hawliau dynol. Mae'n bwysig sylweddoli, er bod gan y Ddeddf le pwysig ym mywyd cyhoeddus Cymru, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail nodau tymor hwy a chynaliadwyedd i'r dyfodol, nid yw'n disodli hawliau dynol plant, ac ni ddylai wneud hynny. Mae cyflawni hawliau plant yn rhagofyniad ar gyfer cyflawni egwyddorion y Ddeddf a'i nodau llesiant, ac o ganlyniad, mae angen adolygu'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth i sicrhau eu bod yn cydweddu â'i gilydd, ac osgoi unrhyw ddyblygu neu golli gwelededd o safbwynt ffocws ar hawliau plant. O ganlyniad, mae gan fy swyddfa rôl bwysig o hyd, yn diogelu ac yn cynnal hawliau plant ochr yn ochr â'r Ddeddf bwysig hon.

Mae rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn hanfodol o ran darparu cefnogaeth uniongyrchol (a her) i gyrff cyhoeddus, yn benodol mewn perthynas â sut maent yn gweithredu'r Ddeddf. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth yn dal yn newydd iawn o ran amserlenni gweithredu, pan fyddwch chi'n edrych ar newid diwylliant yn llwyr o ran sut mae sefydliadau'n cyflawni eu gwaith creiddiol. Mae eu rôl ragnodedig ym maes deddfwriaeth yn wahanol i rôl fy swyddfa i, gan fod eu cylch gorchwyl yn gofyn eu bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyrff cyhoeddus i roi'r Ddeddf ar waith.

Er nad oes ganddi'r ddyletswydd ffurfiol hon, mae fy swyddfa innau wedi cyfrannu at helpu i ffurfio sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio. Rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant o'r enw Y Ffordd Gywir, sef fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant, a seiliwyd ar CCUHP er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer. Fe'i lluniwyd gyda chymorth arbenigol gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, ac mae'n annog gwasanaethau cyhoeddus ar draws y wlad i ymrwymo i CCUHP a gwella sut maen nhw'n cynllunio ac yn cyflwyno eu gwasanaethau.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rydym hefyd wedi cynhyrchu cyfres ddwyieithog o ganllawiau ar gyfer gwahanol sectorau a lleoliadau, ac mae'r rhain i gyd i'w canfod ar ein gwefan.

Gyda hynny mewn golwg, bu fy swyddfa'n gweithio ar y cyd â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynhyrchu canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus, o'r enw Y Ffordd Gywir: Dyfodol Addas i Blant. Buon ni'n gweithio gyda dau o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ac ochr yn ochr â nhw i gynhyrchu'r adnodd hwn, sef **adroddiad** sy'n cynnwys offer ymarferol ac esiamplau i helpu cyrff cyhoeddus i ystyried hawliau plant ar draws pob un o'r nodau Llesiant a'r Pum Ffordd o Weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth i'r Ddeddf fynd trwy'r Senedd, bu fy swyddfa'n mynegi pryder ynghylch colli Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Gwaetha'r modd, ni fu ymdrechion y swyddfa ac eraill i lobïo yn erbyn y newid hwn yn llwyddiannus. Yn y cyfnod ers i'r Bil ddod i rym, mae fy swyddfa wedi neilltuo cryn amser ac adnoddau i weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac ochr yn ochr â nhw, er mwyn sicrhau bod gan bob un ohonynt strwythurau llywodraethiant ar gyfer sicrhau bod materion plant yn cael eu trafod a'u harchwilio. Ar sail fy sesiynau dilynol diweddaraf gyda BPRhau, mae gan bob un ohonynt bellach strwythurau yn eu lle i ystyried materion plant, ond mae pob un mewn sefyllfa wahanol o ran cynnydd ynghylch llywodraethiant a gweithrediad y strwythurau hyn, felly mae'n anochel bod peth momentwm wedi'i golli wrth i'r trefniadau newydd hyn gael eu rhoi ar waith. Nid oes un dull gweithredu cyson ar draws holl ranbarthau Cymru ychwaith, ar y sail hon. Byddwn i'n croesawu cryfhau'r gofynion i Is-grwpiau Plant a Phobl Ifanc Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar eu rhaglenni gwaith a'u cynnydd o fewn terfynau amser penodol.

O ran Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ymgysylltu cyfyngedig sydd rhwng fy swyddfa a'r strwythurau hynny. Er fy mod wedi gweld peth tystiolaeth o gynnwys plant yn yr asesiadau llesiant, nid wyf yn sicr pa mor effeithiol mae modd ystyried materion plant yn y dogfennau mawr hyn, na pha mor amlwg yw plant yng ngwaith ehangach y BGCau, gan fod eu cylch gorchwyl mor eang.

I grynhoi, mae'r ddeddfwriaeth yn dal yn newydd iawn, o edrych yn gymharol. Mae newid sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio yn dasg fawr, ac yn un sy'n galw am gryn ymrwymiad gan bawb dan sylw. Er y gall arafwch newid achosi rhwystredigaeth ar brydiau, yn fy marn i, ni fuasai'r newidiadau a welsom yn bosibl heb gyflwyno'r ddeddfwriaeth a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mewn geiriau eraill, fel y gwelsom yn achos y ddeddfwriaeth i ddileu amddiffyniad cosb resymol yn ôl yn 2020, ac mewn gwledydd ar draws y byd sydd wedi rhoi'r newid hwn ar waith, y ffordd rwyddaf o gyflymu'r newid yw cymryd camau i newid deddfwriaeth ac addysg/diwylliant; heb hynny, dwy ddim yn credu y buasai'r cynnydd a wnaed hyd yma yn bosibl.

Tŷ Llewelyn | Llewelyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr
Heol yr Harbwr
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600
post@childcomwales.org.uk

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Yn olaf, mae'n eglur bod cylch gorchwyl a nodau cysylltiedig, ond amlwg wahanol, i rolau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'm swyddfa i. Mae'n bwysig bod y ddwy swyddfa'n parhau i gael eu hariannu a'u cefnogi i gyflawni gwell gwasanaethau cyhoeddus, ac yn y pen draw ganlyniadau gwell i'r poblogaethau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Yn gywir,



Rocio Cifuentes MBE

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Llewelyn | Llewelyn House
Parc Busnes Glan yr Harbwr
Heol yr Harbwr
Port Talbot
SA13 1SB
01792 765600
post@childcomwales.org.uk

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*